Polisi Addysgu a Dysgu

Egwyddorion

Sail i'n haddysgu yw'r gred mai un cyfle y caiff y plant i ennill a manteisio ar addysg gynradd. Mae'n ddyletswydd arnom i ddarparu'r gorau gallwn yn athrawon, yn staff cymorth ac yn adnoddau a defnyddio'r cyfan hyd eithaf ein gallu. Byddai gwneud llai na hyn yn gamwedd ar ein disgyblion .

Rydym yn credu bod cynnydd ein disgyblion yn ganlyniad i addysgu a dysgu da, a bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei addysgu'n dda. Felly byddem yn disgwyl i bob plentyn yn ein hysgol i wneud cynnydd da o leiaf, pa le bynnag ei fan cychwyn.
Credwn fod rhaid i'n hysgol fod yn lle croesawgar, diogel a bywiog er mwyn i'n plant ddysgu'n effeithiol . Rydym hefyd yn credu nad yw plant anhapus yn dysgu mor effeithiol â phlant hapus.

Ein profiad yw bod plant yn dal ar y cyfle ac yn ffynnu ar y disgwyliadau uchel a osodir ar eu cyfer gan eu hathrawon . Felly, byddwn yn disgwyl cyrhaeddiad uchel ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac na fyddant yn cael eu cyfyngu gan benllanw o ddisgwyliadau isel.

Addysgu a dysgu yn ein prif weithgaredd . Er mwyn gwneud hyn mor effeithiol ag y bo modd rhaid iddo gael ei gyflwyno o fewn fframwaith o'r hyn a gredwn yw arfer cynradd ar ei orau. Rydym yn disgrifio hyn dan y prif benawdau canlynol :

- Perthynas
- Addysgu, dysgu ac asesu
- Y cwricwlwm
- Cyrhaeddiad a chynnydd
- Yr amgylchedd ar gyfer dysgu.

Perthynas

Mae effeithiolrwydd unrhyw ysgol yn dibynnu ar ansawdd y berthynas ymysg y rhai sy'n gweithio ynddi o ddydd i ddydd. Rydym yn credu bod y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhwng y plant, y rhieni, yr athrawon, y staff cymorth a'r llywodraethwyr yn cynorthwyo i wneud ein hysgol ni yn un dda iawn, ac rydym yn cymryd gofal mawr i feithrin y berthynas honno.

Rydym yn credu bod:

- Rhaid i'r holl staff gynnal disgwyliadau cyson o agweddau ac ymddygiad plant ac yn cymryd cyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau bod y rhain yn bodoli o amgylch yr ysgol
- Rhaid i ni drin pawb gyda'r parch y byddem yn dymuno ei derbyn ein hunain, gan gymryd rôl weithredol i ganmol, i longyfarch a diolch i eraill.
- Dylai moesau da a sgiliau cymdeithasol gael eu harfer gan bawb.
- Dylai plant gael eu cynorthwyo i ddatblygu hunan-barch a mynegiant
- Mae angen i ni adeiladu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r disgyblion, y staff, y rhieni, y llywodraethwyr, a'r gymuned
- Mae'n bwysig gwybod gwerth eraill ac o fod yn rhan o dîm .
- Mae systemau da o wobrwyon a chymhellion ar waith ar gyfer yr holl staff i'w defnyddio.
- Mae angen i bawb fod yn ymwybodol o'u hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n mynd law yn llaw â nhw.

<u>Addysgu, dysgu ac asesu</u>

Rydym yma i addysgu a dysgu; dyna'r rheswm ein bod yma . Rydym yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei addysgu yn dda ac yn haeddu gwneud cynnydd da o leiaf . Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymyrryd yn effeithiol lle nad yw plant yn cyflawni eu gorau mae'n rhaid i ni fod yn gallu dilyn a rhagweld eu cynnydd. Mae angen i blant wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Rydym yn cydnabod bod yr angen am asesu da a deallus, er mwyn cynllunio a gwerthuso dysgu yn effeithiol, yn weithgaredd parhaus ac mae'n digwydd yn ffurfiol ac yn anffurfiol, yn ffurfiannol a chrynodol. Yr ydym yn cydnabod yn benodol rymuster llawer o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' ac rydym hel arbenigedd yn y maes hwn.

Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bwysig nad yw asesu yn dod yn faich sy'n cymryd llawer gormod o amser. Os na chaiff yr asesu ei ddefnyddio gan gynulleidfa yn y dyfodol i hybu dysgu plentyn nid oes angen ei gofnodi'n ffurfiol.

Mae'r asesiad mwyaf effeithiol yn cael ei gynnal fel rhan annatod o'r broses addysgu a dysgu. Nid ymarfer atodol mohono.

Rydym yn credu y bydd plant yn dysgu orau pan :

- mae'r addysgu yn ddiddorol a dyfeisgar, gwahaniaethol a phersonol;
- mae'r asesu yn ffurfio rhan o broses gylchol, sy'n llywio'r wers gyfredol ac yn goleuo'r nesaf;
- mae amcanion dysgu clir a meini prawf llwyddiant ar gael, a rheiny wedi eu creu gan y plant;
- mae'r plant yn cael eu hasesu ar yr hyn y gallant ei wneud, nid yr hyn na allant ei wneud;
- mae'r asesu yn berthnasol ac yn hylaw ac yn arwain y cynllunio;

• mae’r marcio yn gyfeillgar i blant, yn gysylltiedig ag amcanion dysgu, ac yn rhoi gwybod i blant sut i wella eu gwaith;
• mae'r plant yn ymwybodol o ac yn ymwneud ag asesu eu cynnydd;
• mae'r plant yn teimlo'n ddigon hyderus i gymryd risg a gwneud camgymeriadau;
• a bo athrawon yn gallu ymateb i sefyllfaoedd sy'n codi ac yn gallu defnyddio eu harbenigedd.

Y Cwricwlwm

Mae addysg gynradd yn gyfnod hollbwysig yn natblygiad plant - mae’n pennu ffurf eu bywydau. Yn ogystal â rhoi'r arfau hanfodol ar gyfer dysgu iddynt, mae addysg gynradd yn ymwneud â rhoi cyfle i blant brofi’r llawenydd o ddarganfod, o ddatrys problemau, i fod yn greadigol, gan ddatblygu eu hunanhyder fel dysgwyr ac i aeddfedu yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Yn yr ysgolion cynradd gorau nid oes ymdeimlad o densiwn rhwng safonau uchel a dysgu cyffrous. Mae’r plant yn cael y cyfle i ddysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol - ond mae’r dysgu a’r addysgu o ansawdd uchel ac yn cael ei gynllunio a'i reoli fel bod pob plentyn yn cael ei gefnogi a'i herio.

Mae’r cynllunio a’r paratoi a ddyfeisiwyd yn ddeheuig yn gwbl hanfodol os yw’r addysgu i fod yn dda . Mae athro da, fodd bynnag, hefyd yn athro creadigol a dychmygus nad yw’n ofni manteisio ar gyfleoedd dysgu heb eu cynllunio a allai godi yn ystod gwers ac sy'n gallu gwneud cysylltiadau cynhyrchiol â meysydd eraill y cwricwlwm lle bo'n briodol. Rydym yn gwneud defnydd da o gysylltiadau trawsgwricwlaidd wrth gynllunio fel bod y dysgu yn brofiad integredig a chyflenwol yn hytrach na chael ei gyflwyno mewn adrannau.

Rydym yn credu ei bod yn arbennig o bwysig bod :

- y sgiliau craidd yn cael eu hymarfer yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm cyfan .
- y cwricwlwm yn gyffrous, yn berthnasol, ac arloesol, gan ddefnyddio ystod eang o adnoddau, gan gynnwys y gymuned
- y cwricwlwm yn eang a chreadigol er mwyn datblygu’r plentyn cyfan .
- y cynllunio yn berthnasol i'r dasg, wedi ei adeiladu ar asesu blaenorol, gyda chyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol.
- y cynllunio yn caniatáu hyblygrwydd a’r athrawon yn meddu ar yr hyder i ddilyn diddordebau’r plant neu faterion cyfoes
- y cynllunio yn hygyrch, yn gyfeillgar i’r defnyddiwr ac ar gael.
- cysylltiadau cryf a pherthnasol ar draws y cwricwlwm.
- y plant yn berchen ar rai meysydd o'r cwricwlwm.

Cyrhaeddiad a Chynnydd

Os yw’r berthynas a’r addysgu a dysgu o fewn cwricwlwm cyffrous - sydd wedi'i gynllunio'n ddeheig - yn dda, yna byddem yn disgwyl cynnydd pob plentyn, fel arfer, i fod o leiaf yn dda.

Bydd cyrhaeddiad a chynnydd y disgyblion yn cael ei fesur ar adegau allweddol drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag ar adegau allweddol yn ystod hynt plentyn drwy'r ysgol .

O ganlyniad i'r broses asesu ac olrhain byddem yn disgwyl :

- bod pob plentyn yn gwneud cynnydd da er mwyn cyflawni eu potensial unigol
- bod y plant yn awyddus i gyrraedd y cam nesaf yn eu dysgu
- bod y plant yn ymwybodol o sut maent yn cyflawni a sut y gallant wella neu ddatblygu
- bod cyrhaeddiad a chynnydd da yn cael ei wobrwyo a'i ddathlu .
- bod adroddiadau rheolaidd yn mynd at y rhieni yn nodi cyrhaeddiad a'r camau nesaf
- bod targedau cynnydd personol yn ystyried amgylchiadau'r plant y tu allan i'r ysgol yn ogystal â'r cymorth a ddarperir ar eu cyfer yn yr ysgol
- bod y rhieni yn cymryd rhan yn dysgu eu plant
- bod plant sy'n nod ymyrraeth â strategaethau yn eu lle i'w cefnogi.
- bod rhaglenni ymyrraeth yn cael ei defnyddio yn gyflym ac yn effeithiol .

<u>Amgylchedd ar gyfer dysgu</u>

Rydym yn credu ei bod yn hanfodol i feithrin ymdeimlad o werth a hunan-barch ym mhob plentyn. Mae arddangos gwaith plant mewn modd gofalus a sensitif yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi eu gwaith a'n bod yn cymryd balchder gwirioneddol ynddo.

Yn ein hystafelloedd dosbarth rydym yn disgwyl gweld

- amgylchedd ysgogol, ysbrydoledig, trefnus a chyffrous sy'n dathlu dysgu.
- gwaith pob plentyn yn cael ei arddangos, beth bynnag fo'u gallu
- arddangosfeydd rhyngweithiol sy'n cwmpasu gwahanol bynciau a meysydd dysgu sy'n cynnwys cymhorthion dysgu sgaffald
- arddangosfeydd ac amgylchedd a roddwyd cychwyn iddynt gan y plant
- plant sy'n ymwneud â, ac yn cymryd balchder yn eu hamgylchedd dysgu
- defnydd o'r gymuned ehangach a manteisio ar arbenigedd i gefnogi dysgu
- defnydd o'r ystafell ddosbarth awyr agored a'r ardal leol fel rhan o'r cwricwlwm
- amgylchedd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb
- defnyddio amrywiaeth o amgylcheddau i ysbrydoli a darganfod diddordebau a doniau eraill
- ardaloedd a phrofiadau chwarae awyr agored diogel a phleserus

Atodiad A

Graddio Gwers: mesur effaith ar gynnydd disgyblion

Gwersi Rhagorol

□ Mae'r wybodaeth a geir wrth asesu yn cael ei ddefnyddio i osod tasgau sydd wedi'u cyfateb yn berffaith i gyrhaeddiad blaenorol y disgyblion.
□ Mae'r gwaith yn cael ei osod ar lefel a ellir ei gyflawni os bydd y disgyblion unigol yn gweithio'n galed ac yn gwneud eu gorau glas.
□ Mae disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn derbyn cefnogaeth ar adeg ac ar lefel priodol i gael y gorau o'u dysgu.
□ Mae'r gwaith yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a TGCh , yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer ehangu medrau ehangach megis ymchwil a gweithio cydweithredol.
□ Mae'r tasgau eu hunain yn ennyn brwdfrydedd disgyblion fel eu bod yn dyfalbarhau yn wyneb problemau anodd a'u bod yn awyddus i lwyddo a dysgu mwy.
□ Mae'r athro drwy gydol y wers yn gwneud y gorau o'i amser drwy amrywio cyflymder y dysgu i'w alluogi i ddefnyddio'r amser yn dra effeithiol i gefnogi disgyblion ar yr adeg y mae angen cymorth o'r fath arnynt.
□ Mae'r athro yn dangos lefel uchel o wybodaeth yn y pwnc wrth lunio ac ateb cwestiynau.
□ Mae'r cwestiynau yn arwain ac yn herio dealltwriaeth y disgyblion fel bod athrawon yn eithriadol ymwybodol i ba radd y mae'r disgyblion yn ddiogel.
□ Mae'r gwaith ar gyfer pob unigolyn yn cael ei addasu yng ngoleuni unrhyw gamsyniadau sy'n cael eu dwyn i'r amlwg drwy holi neu archwilio gwaith y disgyblion.
□ Mae marcio yn aml ac yn rheolaidd ac yn darparu canllawiau clir iawn i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith.
□ Mae'r athrawes yn sicrhau bod cywiriadau yn cael eu cynnal ac unrhyw waith sydd ar goll yn cael ei gwblhau.
□ Mae Dysgu yn y Cartref yn rhan annatod o'r wers. Mae'n ymestyn y dysgu ac yn cael ei ystyried yr un mor bwysig â'r wers ei hun.

Gwersi Da

□ Mae'r wybodaeth a geir wrth asesu yn cael ei ddefnyddio i osod tasgau sydd yn cyfateb yn dda i gyrhaeddiad blaenorol grŵp o ddisgyblion.
□ Mae'r gwaith yn cael ei osod ar lefel sy'n gyraeddadwy ar gyfer y rhan fwyaf o fewn y grŵp os ydynt yn gweithio'n galed ac yn gwneud eu gorau.
□ Mae disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn derbyn cefnogaeth sy'n eu galluogi i weithio'n annibynnol ac i wneud cynnydd da yn ystod y wers.
□ Mae'r gwaith yn cynnwys rhai cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a TGCh.
□ Mae disgyblion yn canfod y tasgau yn ddiddorol a phleserus. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn talu sylw llawn i'r athro.
□ Mae cyflymder y dysgu yn dda drwy gydol y wers gan nad oes amser yn cael ei wastraffu. Mae'r athrawes yn rhoi cymorth ar gyfer grwpiau fel y bo'n briodol ac nid oes rhaid iddynt aros am fewnbwn o'r fath.
□ Mae'r athro yn dangos lefel dda o wybodaeth yn y pwnc wrth lunio ac ateb cwestiynau.
□ Mae'r cwestiynau yn arwain ac yn herio dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion fel bod athrawon yn ymwybodol i ba radd y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddiogel.
□ Mae'r gwersi yn cael eu haddasu mewn ymateb i gamsyniadau sy'n cael eu dwyn i'r amlwg drwy gwestiynu neu archwilio gwaith y disgyblion.
□ Mae marcio yn aml ac yn rheolaidd ac yn darparu canllawiau i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith.
□ Mae'r athrawes yn sicrhau bod cywiriadau yn cael eu cynnal a bod y rhan fwyaf o'r gwaith sydd ar goll yn cael ei gwblhau.
□ Mae Dysgu yn y Cartref yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y dysgu.

Angen gwella
□ Mae'r wybodaeth a geir wrth asesu yn cael ei ddefnyddio i osod tasgau sy'n cyfateb i anghenion y dosbarth.
□ Mae'r gwaith yn cael ei osod ar lefel sy'n gyraeddadwy i bawb o fewn y dosbarth gyda gweithgareddau ymestyn yn cael eu darparu ar gyfer y mwyaf galluog a pheirianwaith cefnogaeth yn ei le ar gyfer y rheini sy'n ei chael yn fwy anodd dysgu.
□ Mae disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn derbyn cefnogaeth sy'n eu galluogi i wneud cynnydd boddhaol.
□ Mae'r gwaith yn cynnwys rhai cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion mewn ddarllen, ysgrifennu, mathemateg a TGCh, ond mae'r rhain yn anghyson yn y tymor hir.
□ Mae'r disgyblion yn canfod y tasgau yn diddorol. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn talu sylw llawn i'r athrawon. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai yn colli diddordeb a bod angen i'r athro eu hatgoffa i ganolbwyntio.
□ Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson drwy gydol y wers oherwydd bod y gwaith yn rhesymol heriol. Mae asesu yn y dosbarth yn nodi camsyniadau cyffredinol, ond ni weithredir arnynt ar unwaith bob amser gyda naill ai'r unigolion neu'r dosbarth cyfan . Efallai y bydd rhaid i ddisgyblion aros am gymorth gyda'u dwylo i fyny.
□ Mae'r athro yn dangos ddigon o wybodaeth am y pwnc i gyflwyno'r cynnwys ac i ateb cwestiynau'n gywir.
□ Mae'r cwestiynau yn cynnig trosolwg eang o ddealltwriaeth y disgyblion.
□ Mae'r camsyniadau sy'n dod i'r amlwg drwy gwestiynu yn cael eu cydnabod ond ni roddir sylw iddynt o fewn y wers.
□ Mae marcio yn galonogol ac yn darparu rhywfaint o arweiniad i'r disgyblion ar sut y gallant wella'u gwaith.
□ Mae peth tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion fod cywiriadau yn cael eu gwneud a gwaith a gollwyd yn cael ei gwblhau.
□ Mae Dysgu yn y Cartref yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y dysgu er efallai bod hyn yn anwadal.

Gwersi annigonol

□ Nid yw'r wybodaeth a gafwyd wrth asesu yn cael ei ddefnyddio yn y cynllunio.
□ Nid yw'r tasgau yn cyfateb yn briodol i gyrhaeddiad blaenorol y disgyblion, fel eu bod yn canfod y gwaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd.

□ Nid yw'r disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn cael cymorth ac arweiniad priodol er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd.
□ Mae hyrwyddo sgiliau sylfaenol yn cael ei anwybyddu.
□ Mae'r disgyblion yn cael eu diflasu gan y tasgau, a gallant fynd yn aflonyddgar.
□ Mae cyflymder y dysgu yn araf oherwydd bod disgyblion yn cael eu dal yn ôl trwy orfod aros am yr athro neu aelodau eraill o'r dosbarth.
□ Mae'r wybodaeth am y pwnc yn wael, fel bod gwybodaeth anghywir yn cael ei gyflwyno neu'r athro yn methu ateb cwestiynau sydd o lefel i'w ddisgwyl yn y wers.
□ Mae'r cwestiynau yn rai caeedig ac ni chânt eu defnyddio i asesu dealltwriaeth y disgyblion.
□ Nid yw'r athro yn gallu addasu'r dasg yng ngoleuni asesu o'r fath.
□ Mae marcio yn anaml ac / neu'n anwadal a / neu'n methu â darparu'r disgyblion gydag arweiniad ar sut y gallant wella'u gwaith.
□ Nid oes mynnu bod cywiriadau yn cael eu cynnal nac unrhyw waith sydd ar goll yn cael ei gwblhau.
□ Nid yw Dysgu yn y Cartref yn cael ei osod neu'n cael ei ystyried yn 'atodiad' heb fawr o berthnasedd i'r wers.